IONAWR 2013

TYWYDD GARW
BWLETIN GWYBODAETH I STAFF

Beth sy'n digwydd os yw'r Ganolfan yn methu agor oherwydd y tywydd garw?

Os penderfynir na ddylid/ellir agor y Ganolfan am resymau iechyd a diogelwch, rhoddir 7.24 o gredyd ar gofnod flexy pob gweithiwr. Anfonir neges destun / e-bost i bawb i'w hysbysu mor fuan ag sydd modd.

Beth sy'n digwydd os ydw i wedi trefnu i gymryd gwyliau/flexy ar ddiwrnod tywydd garw?

Yn anffodus, bydd y trefniant yn parhau, oni bai eich bod wedi hysbysu eich rheolwr llinell eich bod yn dymuno canslo'r gwyliau CYN y penderfyniad i beidio agor / gau'r Ganolfan.

Beth sy'n digwydd os yw'r Ganolfan yn cael ei chau yn ystod y dydd oherwydd y tywydd garw?

Rhoddir cofnod o 4pm fel amser gorffen i bob gweithiwr sydd wedi dod / yn parhau yn eu gwaith.

Beth sy'n digwydd os nad wyf yn gallu dod i'm gwaith oherwydd yr eira, neu yn penderfynu peidio trio dod i'm gwaith?

Os yw'r Ganolfan ar agor, disgwylir i chwi gymryd un ai diwrnod o wyliau, amser flexy i ffwrdd neu amser in lieu.

Beth sy'n digwydd os ydw i yn cyrraedd fy ngwaith yn hwyr oherwydd yr eira?

Disgwylir i chwi gofnodi'r union amser y daethoch i'ch gwaith - hyd yn oed pe bai hynny ar ôl 9.30am.

Beth sy'n digwydd os ydw i yn penderfynu mynd adref yn fuan am fod yr eira'n ddrwg yn lle dwi'n byw?

Disgwylir i chwi gael caniatâd eich rheolwr llinell cyn gadael yn fuan, ac fe ddylech gofnodi'r union amser yr ydych yn gadael eich gwaith/gorffen gweithio.

Beth sy'n digwydd os yw'r Ganolfan yn cael ei chau ar ôl i mi benderfynu mynd adref yn fuan?

Byddwch wedi clocio wrth orffen gweithio, a dyna'r amser a gofnodir ar eich cyfer. Ni ychwanegir unrhyw oriau pellach at eich cyfanswm, gan nad ydych yn eich gwaith pan benderfynir cau'r ganolfan.

Ydi'n bosibl i mi weithio gartref ar adegau o dywydd garw?

Mae hyn yn dibynnu ar natur eich swydd. Dylech drafod hyn gyda'ch rheolwr llinell, ac os yw natur eich swydd / dyletswyddau yn golygu y gallwch weithio gartref, yna mae'n bosibl y caniateir i chwi wneud hynny. Mae'n rhaid i'r trefniant hwn gael ei gymeradwyo gan eich Rheolwr Llinell ymlaen llaw, a dealltwriaeth pa waith fyddwch yn ei wneud a.y.y.b. Mae'n rhaid i'r trefniant fod wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw – ni all fod yn benderfyniad mympwyol neu funud olaf.

Beth sy'n digwydd os dwi wedi cael caniatâd i weithio adref, a mae'r Ganolfan yn cael ei chau yn fuan?

Os y cytunwyd i chwi weithio adref, disgwylir i chwi gofnodi yr union oriau a weithwyd. Os y penderfynir cau'r Ganolfan, fe wneir hynny am resymau diogelwch. Gan nad ydych yn y Ganolfan ar y diwrnod hwnnw, nid yw'r penderfyniad i gau'r Ganolfan yn berthnasol i chwi ac ni fyddwch felly yn deilwng i unrhyw "credyd flexy" a roddir i'r staff sydd yno.